

HANES CYFIEITHU YNG NGHYMRU

Papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd 'Cerrig Milltir' y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth, 30 Mehefin 2005

Ar y diwedd ceir rhestr o'r cyfieithiadau a arddangoswyd

Cyn i mi fynd ati i amlinellu'n fras hanes cyfieithu yng Nghymru, peth difyr efallai fyddai bwrw golwg yn ôl dros y miloedd blynnyddoedd ac ystyried pwy oedd y cyntaf i sefyll rhwng dau neu ddwy arall a throsi iaith neu dafodiaith y naill i iaith neu dafodiaith y llall. Ai dyn yn sefyll rhwng ei wraig a'i fam - neu rhwng dau ddyn arall - a chyfieithu am fywyd rhag iddyn nhw ymosod ar ei gilydd hyd at waed? Neu blentyn yn 'cyfieithu' neu'n trosi i'w rieni y parhau hwnnw a gewch gan blentyn bach sydd ar fin dysgu siarad? Y pwynt rwy'n ceisio'i wneud yw bod sawl math o gyfieithu'n bod – troi, trosi, cyfieithu, cyfieithu ar y pryd, cyfieithu olynol, trosleisio, cydwefuso a hyd yn oed 'lladmeru', yn ôl Geiriadur y Brifysgol.

I rai, proses ddiflas ac anniddorol tost yw cyfieithu; i eraill, mae'n broses gwbl ryfeddol. Allan nhw ddim ond rhyfeddu at gymhlethdod y cyfan - trosi geiriau ac ystyr o un system gymhleth - a diffygiol - i system arall, a honno hefyd yn system gymhleth a diffygiol, gan ystumio cyn lleied â phosib ar ystyr, arddull a naws y cyfan.

Gan i gyfieithu fod yn rhan o ymwneud pobl â'i gilydd drwy'r oesoedd, yn enwedig ar hyd ymylon neu ffiniau cymdeithasau a chymunedau, llwythau a chenhedloedd, does ryfedd i'r Iddewon ddatblygu'r hanes trawiadol am Dŵr Babel ond, hyd y cofia i, does fawr o sôn yn yr Hen Destament na'r Testament Newydd am gyfieithwyr o fath yn y byd. Ac eto, mae'n rhaid eu bod nhw yno – y bobl ddwyieithog, dairieithog neu amlieithog a fyddai'n pontio rhwng y deall a'r anneall.

Ar y wal yn swyddfa Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ym Mangor heddiw, mae pennawd o bapur newydd sy'n cyhoeddi i'r byd a'r betws ddyfarniad ysgytwol Susan Bassnett 'Translators are civilisation's unsung heroes'. Ac o ystyried y peth, mae'n anodd gweld sut y gallai gwareiddiad fod wedi *gallu* ymledu oni bai am ymdrechion cyfieithwyr ar hyd yr oesoedd.

Ar ryw ystyr, rwy'n hoffi'r ffaith nad ydyn nhw yno i'w gweld yn y llenyddiaethau cynnar – eu bod hwy fel gwydr mewn ffenestr – yn wydr nad oes neb yn sylwi arno oni bai ei fod yn anarferol o frwnt neu fod crac ynddo.

Ystyriwch, felly, waith y cyfieithwyr wrth drosi gweithiau'r Groegiaid i'r Lladin ac o'r Lladin i ieithoedd brodorol eraill Ewrop gan sbarduno dadeni – y Dadeni Dysg – a drawsnewidiodd holl ffordd pobl Ewrop a rhannau eraill o'r byd o weld a synio am eu byd a'u bydysawd. Gwir a ddywedodd y diweddar Dyfnallt Morgan 'Mae celfyddyd y cyfieithydd yn sobreiddiol.'

Cwestiwn sy'n codi yw a oedd statws i'r cyfieithwyr cynnar? Mae'n siŵr bod *iddyn* nhw rôl amlwg a phwysig yng ngweinyddiaeth llysoedd brenhinoedd a phenaethiaid o bob math, gan gynnwys llysoedd barn, ac fe allen nhw fod yn allweddol yn y trafodaethau rhwng brenhinoedd. Fe glywson ni i gyd yr hanes am y brenin yn gorchymyn lladd y negesydd, ond chlywson ni erioed sôn am frenin yn gorchymyn lladd y cyfieithydd – am ei fod yn rhy bwysig, diolch byth!

Rhaid i ni aros tan ddyddiau ysgrifennu i weld unrhyw faint o ôl gwaith ysgrifenedig y cyfieithydd, ac efallai mai carreg Rossetta yw'r amlygiad cliraf o weithgarwch cyfieithwyr yr ymerodraethau cynnar. Ar y maen hwnnw y cofnodwyd - gan offeiriaid, mae'n debyg - holl weithredoedd bendithiol y Pharo, a hynny mewn dwy iaith a thair sgript. Ond wyddon ni ddim byd oll am adnoddau, statws, dulliau ac amgylchedd gweithio, hyfforddiant na meddylfryd cyfieithwyr yr hen oesoedd.

A symud ymlaen i Gymru ganrifoedd yn ddiweddarach, fe wyddon ni i gyd mai o'r Gymraeg i'r Lladin neu o'r Lladin i'r Gymraeg – gall y broses fod wedi digwydd y ddwy ffordd, mae'n debyg – y gwnaed y rhan fwyaf o lawer o'r cyfieithu ar femrwn, a'r un mor aneglur – serch y dyfalu - yw'r modd y lluniwyd ac y cyfieithwyd rhai o'r chwedlau a elwir yn Dair Rhamant. Fe gofiwch, o bosib, am ddarlith Constance Bullock-Davies ar y *Professional Interpreters and the Matter of Britain*, darlith sy'n cynnwys sawl sylw diddorol am sefyllfa cyfieithu ar ororau Cymru. Meddai:

... a very brief survey of the language situation in Britain before the Conquest ... will serve to establish that the use of interpreters, far from being something that was necessarily introduced by William I and his French court, had been customary in the country for centuries ... He (sef William) had to make use of professional interpreters. Domesday Book mentions seven by name: Asgotus Interpres, Hugolinus Interpres, Ricard Interpres (tri interpres, sylwch) Hugo Latimarius, Lewinus Latimarius, Radulfur Latimarius and Osmundus Latimarius. (pedwar *latimarius* – lladmerydd, sef cyfieithydd proffesiynol).

...(because) Britain was a polyglot country from at least the sixth century, ... there existed in it a class of linguists through whom interchange of local literature could have been easily and naturally made. These were professional interpreters, superior in linguistic ability by the nature of their employment to a casual or domestic minstrel; and calculated to be much better qualified to transmit native story accurately. There is enough evidence to prove that they could and did act as literary intermediaries between the Celtic population and its Norman neighbour.

Mae hi'n tynnu sylw at y gair Hen Saesneg am gyfieithydd neu ladmerydd - *wealhstōd* - ac at enw un o gymeriadau chwedl *Culhwch ac Olwen*, Gwrhyd Gwalstawd Ieithoedd, a dywed:

This borrowing from Old English into Welsh suggests that professional interpreters were busy on the Welsh Border from early English times.

Cyfeiria Bullock-Davies at ambell ladmerydd o Gymro a enwyd mewn dogfennau o'r cyfnod. Un ohonynt yw'r dyn a elwir yn Bledhricus Latimeri. Ac un arall – mwy diddorol efallai – yw hwn: '(Henry II's) latimer in Wales was no less than a prince, Iorwerth ap Maredudd ap Bleddyn ap Cynfan, prince of Powys, but more generally known as Iorwerth Goch' gŵr a oedd mor bwysig nes nad oes cofnod ohono yn y Bywgraffiadur!

Ym 1118 talwyd naw deg un o bunnoedd (£91) i ladmerydd am flwyddyn o waith, sef swm a oedd yn cyfateb, medd Bullock-Davies, i £18,000 (ond cofiwch mai am brisiau 1966 yr oedd hi'n sôn!). 'Interpreters, especially kings' interpreters, were placed on a high social footing. ... he was no mere servant, but an accomplished and cultured gentleman. (fel pob cyfieithydd, wrth gwrs!).

Ceir cofnod o 1212 sy'n sôn am 'Wrenoc fits Meurig de Powis being the king's latimer in Wales.'

Wyddon ni ddim a gâi cyfieithwyr neu ladmeryddion eu hyfforddi mewn ysgolion cyfieithu, fel y câi'r beirdd, nac a briodolid iddynt unrhyw bwerau goruwchnaturiol, fel gallu honedig beirdd Iwerddon i rigymu cathod i farwolaeth. Ond fel yn achos y beirdd, ceir ychydig o dystiolaeth bod modd i swydd cyfieithydd gael ei throsglwyddo o dad i fab.

O ran cyfieithu ar femrwn yn yr Oesoedd Canol, go brin bod y cysyniad o awduriaeth yn un pendant a byddai copïwyr llawysgrifau yn fynych yn addasu eu testunau - yn eu hiaith eu hunain neu wrth gyfieithu - yn ôl y gofynion personol, diwylliannol a gwleidyddol oedd arnyn nhw, ac mae'n anodd i ni heddiw wybod pa ffactorau oedd ynghlwm wrth gyfieithu chwedlau fel *Chwedleu Seith Doethon Rhufein* neu *Chwedleu Odo*, er enghraifft, i'r Gymraeg.

Gyda dyfodiad argraffu, wrth gwrs, mae lle tipyn amlycach i'r awdur - a'r cyfieithydd. Yn ystod Oes Elisabeth I fe gyfieithodd y Protestaniaid a'r Catholigion fel ei gilydd doreth o lenyddiaeth ddefosiynol gan osod cyfieithwyr yn y rheng flaen yn y frwydr am enaid crefyddol - a dyfodol gwleidyddol y genedl. Cafwyd cyfieithiadau 'Protestannaidd' fel *Kynnifer Llith a Ban* gan William Salesbury, *Deffiniad Ffyrdd Eglwys Loegr* gan yr uchelwr o gyffiniau Croesoswallt, Morris Kyffin, a *Perl mewn Adfyd*, cyfieithiad Huw Lewys, rheithor Llanddeiniolen. Yn wir, tueddai pleidwyr Protestaniaeth i gynhyrchu cyfieithiadau tra âi Catholigion ati i gyfansoddi llyfrau gwreiddiol, ac mae sawl dehongliad posibl - nad af ar eu trywydd hwn heddiw - o'r duedd honno.

Yr enghreifftiau mwyaf llachar o gyfieithu gan Brotestaniaid, wrth reswm, oedd cyfieithu gwahanol rannau o'r Beibl i'r Gymraeg gan wŷr fel William Salesbury a'r Esgob Richard Davies, ac yna gampwaith gorchestol William Morgan ym 1558. Go brin y byddai'r fath beth â Chymraeg safonol yn bod i ni gyfieithu iddi heddiw oni bai am ymdrechion y gwroniaid a lwyddodd, er gwaetha'r prinder dybryd o adnoddau, i gyflawni camp a achubodd iaith ein cenedl. (Tybed a ddylen ni fod yn dweud gair o ddiolch i Sant Jerome, un o gyfieithwyr cynharaf y Beibl a nawddsant cyfieithwyr, am hynny?!)

Mae'n wir dweud, rwy'n meddwl, mai deunydd defosiynol oedd y mwyafrif o ddigon o gyfieithiadau hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif o leiaf. Gweithgarwch ymylol ym myd cyfieithu fyddai trosi unrhyw ddeunydd arall, ac roedd cyfieithu'r llyfrau diwinyddol gorau o'r Saesneg i'r Gymraeg yn rheidrwydd am na allai'r Gymru dlawd a oedd ohoni byth obeithio cynhyrchu digon o bobl hyddysg i lunio llyfrau o'r fath. Daeth ambell gyfieithiad yn glasuwr - *Y Ffydd Ddiffuant*, er enghraifft. Sylw Thomas Parry wrth drafod rhyddiaith offeiriaid a lleygwyr Eglwys Loegr yn yr ail ganrif ar bymtheg oedd eu bod 'yn ddiwyd iawn yn ysgrifennu llyfrau' ac yna mae'n ychwanegu rhwng cromfachau 'cyfieithiadau bron bob un'.

Cafwyd toreth o gyfieithiadau o bregethau a hyd yn oed ambell gynnig digon trwsgl i gyfieithu *Paradise Lost* Milton.

Gair wrth fynd heibio am bwysigrwydd lled-addasiadau neu led-drosiadau a'u cyfraniad hwy i lenyddiaeth Gymraeg. Yr enghraifft amlwg yw *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg* gan Ellis Wynne, rhydd-addasiad o gyfieithiad/addasiad Syr Roger L'Estrange i'r Saesneg o waith y Sbaenwr Quevedo, enghraifft dda o gyfieithiad yn bwydo cyfieithiad a drodd yn llenyddiaeth greadigol o fath arbennig iawn.

Er y cafwyd addasiadau i'r Gymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg o nofelau, nofelau moeswersol, os nad crefyddol, oedd y mwyafrif ohonyn nhw. Prin iawn fu unrhyw ymgais i gyfieithu campweithiau llenyddol Saesneg yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar

bymtheg – sefyllfa sydd, wrth gwrs, yn dal i fod yn wir heddiw yn yr unfed ganrif ar hugain. Does neb wedi mynd ati i gyfieithu gwaith Dickens, Hardy na D H Lawrence i'r Gymraeg – am resymau amlwg, efallai.

Ym myd barddoniaeth, cyfieithwyd peth wmbredd o emynau a chyfansoddiadau tebyg er mwyn cyfoethogi *repertoire* caneuon crefyddol y Cymry a'u hannog i fynd ati i lunio'u hemynau a'u horatorios eu hunain. Ac mewn oes ddiweddarach, bu cyfieithu mawr – gan Syr Thomas Parry-Williams a Dyfnallt Morgan, ymhlith eraill - ar eiriau caneuon ar gyfer cystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol.

Os ca i neidio am eiliad i'r ugeinfed ganrif, mae'n werth nodi mai cyfieithu caneuon pop Saesneg oedd man cychwyn grwpiau - fel Hogia Llandygái ac unigolion fel Dafydd Iwan a Meic Stevens - ar yrfaoedd nodedig iawn. (Mae gan Hogiau'r Wyddfa hyd yn oed fersiwn ar gân o ran o'r cyfieithiad o Reolau'r Ffordd Fawr, os cofia i'n iawn!) Ar sail cyfieithiadau o'r fath y magodd llawer canwr ddigon o hyder i fentro cyfansoddi drosto'i hun a'r denu cyfansoddwyr eraill i ddilyn ôl ei draed.

Ond nôl â ni am ychydig i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwelwyd cyfieithu tipyn ar stwff 'addysgol' - addysgol yn ei ystyr ehangaf - mewn cyfrolau fel y Gwyddoniadur a byddai newyddiadurwyr yn aml yn cyfieithu adroddiadau o'r Senedd ac ati. Mewn darlith gan Hywel Teifi ar Lew Llwyfo ar S4C yn gymharol ddiweddar, gwelwyd golygfa lle'r oedd yr hen Lew, ar ôl noson o ddathlu anghymedrol o fawr, yn anfon gair at olygydd papur newydd i ofyn a *oedd* ef wedi cyfieithu rhyw adroddiad o'r Senedd. Roedd e wedi meddwi cymaint nes ei fod yn methu'n lân â chofio. Os haerodd Dyfnallt Morgan fod cyfrifoldeb y cyfieithydd yn sobreiddiol, mae'n amlwg na chafodd mo'r gwaith na'r cyfrifoldeb ryw lawer o effaith sobreiddiol ar Lew Llwyfo!

Gan fod amser yn brin, gwell brasgamu ymlaen i'r ugeinfed ganrif a'r arwyddion cynharaf o ymlediad y Gymraeg i faes gweinyddu. Prin, a digon petrus, oedd y camau cynnar er i'r cyfieithiad – gan yr Athro W.J. Gruffudd, mae'n debyg – o'r adroddiad *Welsh in Society and Education* o dan y teitl *Y Gymraeg mewn Addysg a Chymdeithas* agor y drws i ddatblygiadau pellach. Cafwyd ambell gyhoeddiad ar addysg ac economeg a meysydd nad oeddent fel rheol yn perthyn i beuoedd y Gymraeg, ond gan amlaf byddai'r rheiny'n ffrwyth darllen llawer iawn o Saesneg a chymathu'r wybodaeth a loffwyd o ffynonellau Saesneg a chyflwyno'r cyfan yn Gymraeg; hynny yw, roedd elfen o drawsieithu – a defnyddio'r gair am drafod mewn un iaith ddeunydd a ddarllenwyd mewn iaith arall – ynghyd â chyfieithu uniongyrchol.

Maes sydd heb gael y sylw dyladwy, efallai, yw cyfieithu newyddion o bob math gan y cyfryngau torfol – y papurau newydd, y radio a'r teledu. Mae'n ddigon posibl mai'r cyfieithiadau neu'r trosiadau hynny oedd y Gymraeg safonol cyntaf i lawer ohonon ni ei chlywed y tu allan i furiau capel ac ysgol. Hyd y dydd heddiw, dyw newyddiadurwyr a llunwyr bwletinau newyddion ddim yn fodlon cyfaddef mai cyfieithwyr ydyn nhw. Cefais drafodaeth frwd gyda Keith Jones o'r BBC ynghylch hyn beth amser yn ôl. Er eu bod nhw'n mynnu mai newyddiadurwyr ydyn nhw, rwy'n dal i gredu bod elfen sylweddol os nad llywodraethol o waith y lluniwr bwletinau newyddion yn waith cyfieithu – neu drawsieithu, os mynnwch chi - ynghyd â pheth golygu, twtio, caboli ac addasu.

A symud yn ôl i'r maes rwyf fwyaf cyfarwydd ag ef, cam pendant iawn at normaleiddio'r iaith Gymraeg - os caf ddefnyddio'r ymadrodd gor-ffasiynol hwnnw - oedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1967, deddf a basiwyd yn sgil cyhoeddi adroddiad Syr David Hughes Parry ar Statws Cyfreithiol yr Iaith Gymraeg, adroddiad a gyhoeddwyd - sylwer - yn y ddwy iaith. Yr hyn sy'n rhyfeddol, efallai, yw'r ddeddf ei hun. Fe gefais dipyn o syndod pan welais hi am y

tro cyntaf, a rhaid dweud mai'n anaml y bues i'n edrych arni wedyn. Ei phennawd yw 'Chapter 60' a deddf ddigon shimpil yr olwg yw hi hefyd. Dileu gwaharddiadau ar ddefnyddio'r Gymraeg y mae hi fwyaf yn hytrach na hyrwyddo ymestyn y Gymraeg i feysydd gweinyddu, cyfiawnder ac ati. Serch yr olwg sydd arni, fe agorodd hi'r *drws*, ac mewn gwleidyddiaeth a gweinyddiaeth fel ei gilydd, agor y drws sy'n bwysig. Rwy'n cofio i John Morris, pan oedd e'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ddwyn rhan o grant un sefydliad i agor y drws i roi grant i'r Mudiad Ysgolion Meithrin ac mae'r mudiad hwnnw wedi elwa o filiynau o bunnoedd o agor y drws hwnnw.

Ac agor y drws wnaeth y Swyddfa Gymreig wrth benodi ei chyfieithydd amser-llawn cyntaf, ac o gofio mai William Morgan a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg roedd hi'n briodol iawn mai gŵr o'r enw William Morgan ('Moc') Rogers, gŵr o Ffair-rhos yng Ngheredigion, a benodwyd i'r swydd honno. Doedd ganddo ddim cymwysterau cyfieithu wrth gwrs – doedd y fath syniad ddim yn bodoli a gellid dadlau'n ddigon teg nad yw'n fwy na ryw hanner bodoli ar hyn o bryd. Wrth i'r gwaith gynyddu dan bwysau gwleidyddol a swyddogol, fe benodwyd ail gyfieithydd, a thrydydd cyfieithydd, fi, nes i ni ar un adeg fod yn uned gyfieithu o wyth cyfieithydd a thair teipyddes, i gyd wrthi fel lladd nadredd yn ei gwneud hi'n bosibl i'r cyhoedd ac ambell i gyngor ohebu a chynnal eu busnes â'r Swyddfa Gymreig yn Gymraeg.

'Yr unig wahaniaeth rhyngon ni a William Morgan', byddai Moc yn ei ddweud wrthon ni o bryd i'w gilydd, 'yw ein bod ni'n defnyddio beiros a'i fod e'n defnyddio cwilsyn!' Tipyn o or-ddweud, efallai, ond roedd mwy nag ychydig o wir yn y dweud. O leia, roedd y *Geiriadur Mawr* 'da ni!

Roedd gan y Swyddfa Gymreig banel ymgynghorol o arbenigwyr wrth gefn, gyda llaw - gan gynnwys yr Athro T J Morgan – i'n cynghori. Y Panel hwnnw ddyfarnodd mai'r gair Cymraeg am *motorway* fyddai *traffordd*. O gofio natur farwaidd llawer o'r stwff roedd gofyn i ni ei gyfieithu – *biwrocratiaith* - efallai nad yw hi'n syndod i arddull ein cyfieithiadau gael ei galw'n *Whitehall Welsh*!

Helynt a gododd yn nyddiau cynnar Uned Gyfieithu'r Swyddfa Gymreig oedd hwnnw ynghylch cyfieithiad o ryw ffurflenni ynghylch gwasanaeth milwrol. Fe'u cyflwynwyd gerbron Tŷ'r Cyffredin mewn sesiwn yn hwyr y nos, a bu lladd mawr ac afieithus ar safon y cyfieithu. 'Arthritic and grotesque' oedd dyfarniad damniol – a chofiadwy - Elystan Morgan arnyn nhw, a rhaid cyfaddef nad oedd e'n rhyw bell iawn o'i le. Pan ymchwiliwyd i weld pwy oedd y dihiryn o gyfieithydd, cafwyd mai'r Athro Henry Lewis oedd e a bod y cyfieithiad yn dyddio'n ôl ymhell. Ond cofiwch y geiriau 'arthritic and grotesque' - falle y byddan nhw'n handi wrth i chi ddarllen un o 'nghyfieithiadau i ryw dro!

O dipyn i beth, ac yn enwedig yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol a phenderfyniad ambell un o'r cynghorau Cymreiciaf i sefydlu unedau cyfieithu a chynnig gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd i'w cynghorwyr, daeth y Gymraeg i fod yn rhan – rhan fach fach, rhaid cyfaddef – o wead cymhleth biwrocratiaeth yng Nghymru – ac "yn dipyn o boen i'r rhai sy'n credu mewn trefn".

Ochr yn ochr â'r cyfieithu biwrocraidaidd hwnnw, gwelodd y deugain mlynedd dwetha 'ma gryn dipyn o gynnydd mewn trosi llyfrau, nofelau'n bennaf ond hefyd ambell ddrama, dan nawdd y Cyngor Llyfrau a'r Academi Gymreig. Yr eironi yw mai cyfieithu llenyddiaeth - y gwaith sy'n trethu mwy ar adnoddau'r cyfieithydd na'r un arall - sy'n talu leiaf. Ac os cyfieithwch chi farddoniaeth, wel 'canu ar eich bara'ch hun' fyddwch chi.

Ymhlith y cyfieithiadau llenyddol hynny, a chan ddilyn ôl troed cyfieithiad fel un T Hudson-Williams, *Y Tadau a'r Plant*, cafwyd trosiadau o rai nofelau pwysig, fel *Y Llewpart* gan Heledd Hayes, a hefyd ambell un fel *Ffarwel Gwlsari*, cyfieithiad gan Gareth Jones Bangor a ddylai fod wedi cael tipyn mwy o sylw nag a gafodd. Rhaid cofio hefyd am y cyfieithiadau a gyhoeddwyd i lyfrgelloedd yn unig. Llwyddais i fachu rhai copïau ohonyn nhw pan werthodd y Cyngor Llyfrau weddill eu stoc mewn rhyw Steddfod neu'i gilydd. Yn eu plith, roedd rhai o gyfieithiadau Elin Garlick – cyfraniad sydd, i bob golwg, wedi mynd yn angof erbyn hyn. Mae cyfieithu nofelau, yn enwedig nofelau i blant a'r rhai yn eu harddegau yn parhau, wrth gwrs, fel y gwelwch chi o astudio cynnyrch y gweisg yn eich siop lyfrau leol.

Erbyn heddiw, yn ein byd dwyieithog cymharol newydd ni, mae rhwng 400 a 500 o gyfieithwyr amser-llawn neu ran-amser - yn gyfieithwyr cyflogedig ac yn gyfieithwyr ar eu liwt eu hunain - yn ennill bywoliaeth drwy gyfieithu i'r Gymraeg yng Nghymru a thu hwnt. Maen nhw'n cyfieithu pob math o stwff ac yn gweithio i bob math o sefydliadau, cwmnïau ac asiantaethau. Cofiwch fod gan y mwyafrif o sefydliadau cyhoeddus, bellach, eu cynllun iaith sy'n gosod dyletswydd arnyn nhw i gynhyrchu dogfennau ac ati yn y ddwy iaith. Mae'r stwff a gaiff ei gyfieithu, felly, yn rhychwantu byd addysg (yn gyfeirlyfrau ac yn werslyfrau), byd gweinyddu (yn llythyrau, hysbysiadau, adroddiadau a dogfennau rif y gwllith), byd marchnata (yn hysbysebion a deunyddiau hyrwyddo) a hefyd amryw byd o beuoedd nad yw'r Gymraeg wedi mentro iddyn nhw cynt, sef y gwyddorau newydd 'na sydd wedi codi fel madarch dros yr hanner canrif diwethaf. (Cofiwch, gyda llaw, mai cyfieithiadau neu drosiadau yw'r cyfrolau hardd a gynhyrchwyd gan y Ganolfan hon dan arweiniad Peter Lord, a'r gyfrol ar Thomas Jones Pencerrig gan yr Amgueddfa Genedlaethol.)

O ystyried yr holl waith sy'n cael ei wneud ym myd cyfieithu, mae'n ddigon posibl bod mwy'n cael ei gyfieithu heddiw mewn diwrnod nag a gyfieithwyd mewn canrif a rhagor gynt.

Cofiwch mai cyfieithwyr, yn aml iawn, yw'r cyntaf i ddod ar draws rhyw derm neu ymadrodd newydd, a'u gwaith nhw welwch chi ar arwyddion dwyieithog ym mhob man. Eu cynnyrch nhw sydd yn y pen draw wedi rhoi i Gymru lawer o'i dwyieithrwydd cyhoeddus – a hynny er gwaethaf, yn gyntaf, gyndynrwydd ambell gwsmer i ofyn i gyfieithydd *proffesiynol* gyfieithu geiriad arwyddion – gallwch ddychmygu sut gyfieithiad gafwyd o'r arwydd '*raised manhole*' mewn un awdurdod!), yn ail, gyndynrwydd twp cynhyrchwyr arwyddion i ddangos arwyddion i'r cyfieithwyr cyn mynd ati i godi arwyddion ar hyd ein ffyrdd ac yn ein siopau, ac, yn drydydd, ddiffyg crebwyll ambell was sifil a wrthodai dderbyn bod teithi'r Gymraeg yn golygu na ellid dilyn yr un rheolau 'sanctaid' â'r Saesneg. Y meddylfryd olaf sy'n esbonio pam y gwelwch chi arwyddion '1 milltir' a '2 milltir' ar ein ffyrdd – sefyllfa y mae'r Cynulliad, mae'n dda gen i ddweud, yn ddiweddar wedi gweld yn dda ei newid.

Oherwydd datblygiadau technolegol yr ugeinfed ganrif, mae dau faes newydd, praff wedi agor ym myd cyfieithu, sef cyfieithu ar y pryd ac isdeitlo. Mae gan gyfieithwyr ar-y-pryd yr offer, bellach, i allu gwasanaethu cynulleidfaoedd ar hyd a lled y byd. Does dim rhaid iddyn fod ar yr un cyfandir, heb sôn am fod yn yr un stafell. Mae'n cyfieithwyr ar-y-pryd ni heddiw'n gweithio mewn cyfarfodydd o bob math, gan gynnwys llysoedd barn ac yn y Cynulliad, a byddwn i'n tybio bod cyfieithwyr ar-y-pryd Cymru gyda'r gorau yn Ewrop am eu bod yn clywed ac yn siarad yr iaith y maen nhw'n cyfieithu ohoni a'r iaith y maen nhw'n cyfieithu iddi. Tybed ai un rheswm dros eu rhagoriaeth yw bod cystrawen y frawddeg Gymraeg yn gosod y ferf neu elfen bwysig ohoni reit ar ddechrau'r frawddeg?. Gan mai'r ferf yw'r elfen allweddol mewn brawddeg, gall y cyfieithydd ar-y-pryd ddechrau cyfieithu i'r Saesneg dipyn yn gynt na chyfieithwyr ar-y-pryd o ieithoedd eraill. Mewn Almaeneg clasurol, mae'n debyg mai ar ddiwedd y frawddeg y mae'r lle'r ferf - dychmygwch broblemau'r cyfieithydd ar-y-pryd yn y sefyllfa honno!

Yn sgil dyfodiad S4C, ryn ni wedi gweld cynnydd mawr mewn isdeitlo. Bellach, fe welwch chi, os byddwch chi'n dewis gwneud, isdeitlau – i Gymraeg syml ac i'r Saesneg - ar bron pob rhaglen Gymraeg ar S4C, hyd yn oed y rhai lle ceir trafodaeth fyw. Fe gewch chi hyd yn oed gyfieithiadau o ganeuon a cherddi ar isdeitlau amryw o raglenni Cymraeg fel *Cefn Gwlad* a *Noson Lawen*.

Y gred arferol, gyda llaw, yw mai cyfieithu i'ch mamiaith y dylech chi wneud. Mae hynny'n broblem i mi gan mai Saesneg oedd iaith fy mam ond y Gymraeg yw fy iaith gyntaf. I ba un o'r ddwy y dylwn i fod yn cyfieithu? Ar ben hynny, rhaid nodi ei bod hi'n well gan sawl dysgwr gyfieithu i'r Gymraeg am mai i'r iaith honno y mae wedi *arfer* cyfieithu.

Pwynt bach wrth fynd heibio yw mai cyfieithu i'r Saesneg yw cyfieithu ar-y-pryd a chyfieithu isdeitlau tra bo'r rhan fwyaf o lawer o gyfieithu ar bapur yn gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, sefyllfa sy'n codi deuliaeth ddiddorol yn y proffesiwn.

Ar ben hynny i gyd, yr athroniaeth gyffredin yw mai pobl allblyg sy'n gwneud y cyfieithwyr ar-y-pryd gorau, a ninnau'r rhai'r mewnbylg yw'r rhai gorau am gyfieithu ar bapur. Dwi ddim mor siŵr ...

Beth yw diffygion byd cyfieithu yng Nghymru ar hyn o bryd? I mi, fel Cadeirydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, mae'r diffygion yn amlwg iawn. Mae dwy brif broblem, sef y gall unrhyw Dwm, Dic a Harri – ac ambell Anwen, Llinos a Meleri – ymhonni'n gyfieithydd a chael tomen o waith fwy neu lai dros nos gan gymaint y pwysau am gyfieithiadau.

Y broblem arall yw diffyg hyfforddiant ac, o ganlyniad, ddiffyg safonau. Mae hyd yn oed broffesiwn gwerthwyr tai, yr unig broffesiwn arall y gallwch chi ymhonni'n aelod ohono heb gymhwyster o fath yn y byd, wrthi, dan bwysau mawr o du'r llywodraeth, yn ystyried gosod safonau pendant. Hyd yn hyn, yn anffodus, dyw'r Cynulliad ddim wedi gweld yn dda neilltuo unrhyw arian i faes hyfforddi cyfieithwyr heblaw, efallai, fod rhyw ddisgwyl i elfen o'r grant a gawn ni fel cymdeithas gan Fwrdd yr Iaith dalu rhywfaint at gost arholi darpar aelodau.

Go wahanol yw'r sefyllfa yng Nghanada, er enghraifft, lle mae cyfieithwyr 'swyddogol' yn gorfod sefyll prawf cyfieithu bob pum mlynedd neu golli eu trwyddedau. Does ond gobeithio y gallwn ni, ryw ddydd a ddaw – a chyn hir, gobeithio – sefydlu trefn a fydd yn hyfforddi, yn achredu ac yn meincodi (hynny yw, yn codi safonau!) cyfieithwyr ar gyfer gweddill yr unfed ganrif ar hugain.

I gloi, stori fer iawn i ddangos problemau'r cyfieithydd ar-y-pryd. Cyfieithu roeddwn i mewn cyfarfod o Bwyllgor Llenyddiaeth Cyngor y Celfyddydau, a'r annwyl Jâms Nicholas yn siarad yn ei ffordd hamddenol braf.

'Mae pris y llyfr hwn yn rhesymol iawn,' meddai Jâms.

'This book is very reasonably priced', sibrydais inne fel fflach.

'Dwy bunt ...', meddai Jâms.

'Two pounds ..', meddwn inne. Pris rhesymol iawn!

'...ar bymtheg ...', meddai Jâms. Wps!

'Sorry', meddwl inne, 'seventeen pounds...'

'...ar hugain,' meddai Jâms....

Gallwn sôn am lawer enghraifft ddigon tebyg – y cyfieithydd ar y pryd a ddywedodd ‘politics with a small ‘g’ (“gwleidyddiaeth ag ‘g’ fach”), a’r cyfieithydd ar y pryd a ddywedodd wrth ei wrandawyr ‘the speaker now is telling the audience an untranslatable joke. Please laugh ... now!’

Peidiwch byth â meddwl bod gwaith a byd y cyfieithydd yn fêl i gyd!

Diolch yn fawr iawn i chi.

Y cyfieithiadau a arddangoswyd:

Rousille neu Y Tir yn Darfod gan René Bazin. Cyfieithwyd o’r Ffrangeg gan T. Ifor Rees. Gwasg Aberystwyth, 1933.

Merch y Capten gan A. Pwshcin. Cyfieithwyd o’r Rwsieg gan T Hudson-Williams. Y Clwb Llyfrau Cymraeg, 1947.

Ar Gwr y Goedwig gan Louis Hémon. Cyfieithwyd o’r Ffrangeg (“Maria Chapedelaine”) gan John Edwards. Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Lyfrau Ceredigion, 1954/55 (?)

Y Brawd gan Henri Troyat. Cyfieithwyd o’r Ffrangeg gan Rhiannon Davies a T Ifor Rees. Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, 1959.

Y Tadau a’r Plant gan Ifan Twrgenieff. Cyfieithwyd o’r Rwsieg gan T Hudson-Williams. Gwasg y Brython, 1964.

Y Meirw ar y Mynydd gan Henri Troyat. Cyfieithwyd o’r Ffrangeg gan Rhiannon Davies a T Ifor Rees. Llyfrau’r Dryw, 1965.

Noson y Ddawns gan Eva Boegenaes. Cyfieithwyd o’r Norwyeg gan Dilys Price ac Islwyn Ffowc Elis. Gwasg Gomer, 1965.

Llydaw am Byth gan Valère Depauw. Cyfieithwyd o’r Fflemeg gan John Edwards. Gwasg y Brython, 1969.

Tusw o Flodau gan C. Serracostas. Cyfieithwyd o’r Roeg gan Eleutheria Smith, Cyhoeddwyd i Lyfrgelloedd yn unig gan Lyfrfa’r M.C., 1969.

Henffych Dristwch! gan Françoise Sagan. Cyfieithwyd o’r Ffrangeg gan Elenid Williams. Cyhoeddwyd i Lyfrgelloedd yn unig gan Gymdeithas Lyfrau Ceredigion, 1970.

Dŵr a Bara gan Iain Mac A’Ghobhainn. Cyfieithwyd o’r Aeleg gan Donald G Howells. Cyhoeddwyd i Lyfrgelloedd yn unig gan Wasg John Penry, 1970.

Gwylan gan Anton Tshechov. Cyfieithwyd o’r Rwsieg gan W Gareth Jones. Gwasg Prifysgol Cymru, 1970.

Y Ffynhonnell Gudd gan Hella H Haasse. Cyfieithwyd o’r Iseldireg gan Elin Garlick. Cyhoeddwyd i Lyfrgelloedd yn unig gan Wasg Gomer, 1970.

Ffarwel Gwlsari gan Tshingiz Aitmatof. Cyfieithwyd o'r Rwsieg gan W Gareth Jones. Christopher Davies, 1971.

Storiâu Byr o'r Bwyleg, cyfieithwyd gan John Elwyn Jones. Llyfrau'r Faner, di-ddyddiad.

Carnifal gan Gerhart Haufman (storiâu gan Gerhart Haufman a Heinrich Böll). Cyfieithwyd o'r Almaeneg gan John Elwyn Jones. Llyfrau'r Faner, di-ddyddiad.

Diawl yn y tŷ gan Jakez Riou. Cyfieithwyd o'r Llydaweg gan J. E. Caerwyn Williams. Gwasg Gee, 1972.

Y Claf Diglefyd gan Jean Baptiste Molière. Cyfieithwyd o'r Ffrangeg gan Bruce Griffiths. Gwasg Prifysgol Cymru, 1972.

Dail Surion gan Marga Minco. Cyfieithwyd gan Elin Garlick. Christopher Davies, 1972.

Y Dieithryn gan Albert Camus. Cyfieithwyd gan Bruce Griffiths. Yr Academi Gymreig. Cyfres yr Academi – 1, 1972.

Storiâu Tramor II, gol. Bobi Jones (y cyfieithiadau gan amrywiol gyfieithwyr). Gwasg Gomer, 1975.

Y Porth Cyfyng gan André Gide. Cyfieithwyd gan Elenid Jones. Yr Academi Gymreig (Cyfres yr Academi – 2), 1975.

Storiâu Tshecof, gol. W Gareth Jones (y cyfieithiadau gan amrywiol gyfieithwyr), *Storiâu Tramor IV*. Gwasg Gomer, 1977.

Storiâu Ffrangeg Allfro, gol. Mair Hunt (y cyfieithiadau gan amrywiol gyfieithwyr), *Storiâu Tramor VI*. Gwasg Gomer, 1978.

Cysgod yn y Dyffryn gan W. H. Boore. Cyfieithwyd gan Mary Jones. Cyhoeddwyd i Lyfrgelloedd yn unig gan Lyfrfa'r M.C., 1978.

Storiâu o'r Llydaweg, gol. Rita Williams (amryw o'r cyfieithiadau gan Rita Williams), *Storiâu Tramor VII*. Gwasg Gomer, 1979.

Ymwelwyr Annisgwyl a storiâu eraill gan Heinrich Böll. Cyfieithwyd o'r Almaeneg gan Dafydd Andrews. Yr Academi Gymreig (Cyfres yr Academi – 6), 1980.

Y Llewpart gan Guiseppe di Lampedusa. Cyfieithwyd o'r Eidaleg gan Heledd Hayes. Yr Academi Gymreig (Cyfres yr Academi – 9), 1980.

Storiâu Byrion Pádraig Pearse. Cyfieithwyd o'r Wyddeleg gan Gwynn ap Gwilym. Llyfrau'r Faner, 1980.

Etifedd y Glyn gan Emyr Humphreys. Cyfieithwyd o'r Saesneg gan W J Jones (Gwilym Fychan). Gwasg Gomer 1981.

Storiâu Quebec, gol. Paul Birt (cyfieithiadau o'r Ffrangeg gan Paul Birt ac Elwyn Hughes gan mwyaf), *Storiâu Tramor IX*. Gwasg Gomer, 1982.

'Gymrwch Chi Ran? gan Paul Burbridge a Murray Watts. Cyfieithwyd o'r Saesneg gan Sylvia a Rhodri Prys Jones. Gwasg Tŷ John Penry, 1982.

Ar y Trothwy gan Ifan Twrgenef. Cyfieithwyd gan Dillwyn Ellis Hughes. Yr Academi Gymreig (Cyfres yr Academi – 10), 1983.

I Arall Fyd gan Per Denez. Cyfieithwyd gan Rhisiart Hincks. Gwasg Carreg Gwalch, 1997.

Diwylliant Gweledol Cymru: Gweledigaeth yr Oesoedd Canol gan Peter Lord. Ni nodir enw'r cyfieithydd (ond rwy'n digwydd gwybod pwy yw hi!). Gwasg Prifysgol Cymru, 2003.

Thomas Jones (Pencerrig) 1742-1803. Cyfieithwyd gan Nia Wyn Jones a Margaret Tilsley. Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Gwasg Prifysgol Yale, 2003.